



Trip Hwyllo yr ysgol



Bore braf oedd hi ar haul yn tywynnu. Roedd deg plentyn a Mrs Hughes yn mynd ar drip i hwyllo ym "Mhlas Heli ym Mhwillheli." Am naw yn brydlon daeth y bws a cychwynom. Cymerodd y daith tua deg munud tan y cyrhaeddom yn ddiogel. Yna cerddom yn hamddenol at y tri dyn a oedd yn ein croesawu. Yr prif ddyn a oedd yn siarad i ddechrau oedd dyn o'r enw Ken a Josh a Nicholas oedd yn ei helpu.

Ar hynny aethom i'r caban a gofynnodd Ken gwestiynau dechreuol fel a oes rhywun wedi hwyllo o'r blaen a'r unig berson a roddodd ei law i fyny oedd Jacob. Ar ol cofrestru ein henwau ar ddarn o bapur a mynd trwy drefn y diwrnod aethom allan er mwyn i Josh a Nicholas gael dangos sut i weithio y cwch. Enw y math o gwch a oeddem yn mynd i hwyllo arno oedd "Optimis." I ddechrau pan ddangosodd Josh i ni sut i weithio y cwch teimlais yn ddryslyd. Roedd y ffordd o wneud hynny yn gymleth iawn. Ond deallais mewn dim!

Ar ol i bawb ddeall y camau cawsom ras sydyn i rhoi darnau y cwch gyda'i gilydd. Y tim cyntaf oedd tim Jacob, Charlie, Kian, Abi a Donna a'r ail dim oedd tim Cadi, Ffion, Lleucu, Alaw a fi. Yn y ras gyntaf y genod ennillodd ond gwnaeth y ddau dim gamgymeriad bychan sef peidio rhoi y polyn sy'n dal yr hwyl y sownd i'r cwch. Yr ail dro y genod ennillodd hi eto.

Yn ogystal a chael hwyl a sbri roedd yn rhaid newid i siwt wlyb i fynd lawr i hwyllo. Roedd y siwtiau o feintau gwahanol. Cymerom o gwmpas deg munud i ddewis siwt a siaced achub. Hefyd roedd rhaid cael band llawes a rhifau arnynt er diogelwch. Ar ol newid aethom i lawr i lan y mor. Roedd pawb yn cwyno oherwydd bod y siwt lyb yn rhy dynn amdanynt!! Dau blentyn ar un cwch oedd y drefn felly roedd rhaid cael chwech cwch i gyd.

Ar ol cyraedd y mor aethom ar "speed boat" ac deithiodd yn gyflym ofnadwy. Ar ol teithio cyn belled trodd Nicholas y cwch yn ol at lan. Erbyn i ni gyrraedd roedd hi'n bryd i ni gael cinio. Llowciais fy nghinio blasus ac wedyn roedd hi'n bryd i ni ddechrau hwyllo ar y tonau tawel. Aeth Charlie, Jacob a Ffion gyntaf ac wedyn roedd bob plentyn yn cael tro. Yna cawsom ras. Yr ddau enillydd oedd y tim cyntaf a'r ail dim. Roedd rhai'n teimlo'n oer erbyn hyn ac wedi denig yn ol at y lan. Cafodd y rhai oedd ar ol un tro arall ac wrth i Alaw a Lleucu gael tro cawsom lifogydd mawr ca roedd pawb yn chwerthin. Tua hanner awr wedi dau oedd roedd rhaid mynd yn ol i newid.

Ar ol mynd cyrraedd y traeth roedd rhaid tynnu llyniau a thynnu y cychod yn ol i'r caban ac yna aethom i'r ystafelloedd newid a chawsom gawod cynnes. Roedd y bws yn ein disgwyl am dri or gloch y tu allan i'r ystafelloedd newid. Roedd pawb yn cytuno mai hwn oedd un o'r ymweliadau gorau erioed ac roedd pawb esiau cyfle eto!!!!!!



ELLA ROBERTS



Blwyddyn 5